Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.5 Arian grant annatganoledig gan Lywodraeth y DU

Cefndir

Yn ychwanegol at y grantiau hynny a rodda Llywodraeth Cymru, ceir grantiau sy'n berthnasol i Gymru ond a roddir gan Lywodraeth y DU.

Gweinyddir y grantiau hyn fel arfer gan adrannau llywodraeth sydd â'r cyfrifoldeb dros faterion annatganoledig megis y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Er bod arwydd pendant y bydd y rhaglenni cyllid hyn yn parhau, mae'n bosib y cânt un ai eu tynnu'n ôl neu eu diwygio fel sy'n ofynnol i adlewyrchu blaenoriaethau newidiol y llywodraeth. Hefyd, mae nifer o'r rhaglenni yn gynlluniau cronfa dros gyfnodau tair blynedd.

O'r herwydd, anogir grwpiau i gysylltu ag adrannau perthnasol y llywodraeth cyn gynted ag y bo modd ynghylch unrhyw gais am nawdd i'r dyfodol.

Dyma'r rhaglenni grant y credir sydd o fwyaf o ddiddordeb i grwpiau gwirfoddol a chymunedol (mae'n bosib y bydd rhaglenni grant llai a mwy arbenigol yn bodoli o bryd i'w gilydd):

Connected Fund

Bwriad y Connected Fund gan y Swyddfa Gartref yw cynorthwyo sefydliadau a grwpiau cymunedol bychan a reolir yn lleol sy'n mynd i'r afael â throseddau gynau a chyllyll a phroblemau gangiau yn eu hardaloedd lleol. Gall gynorthwyo drwy gic-danio cynlluniau newydd neu roi hwb i brosiectau sydd eisoes yn mynd rhagddynt, neu drwy roi help i feithrin gallu. Mae Cylch 6 y gronfa yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n mynd i'r afael â phroblemau gangiau.

Gofynnir i ymgeiswyr astudio'r meini prawf cymhwyso yn ofalus i weld a ydynt yn gymwys am arian. Nid yw'r canlynol yn gymwys am arian:

- Unigolion
- Gweithgaredd pleidiau gwleidyddol
- Sefydliadau statudol
- Mentrau masnachol (h.y. prosiectau sy'n gwneud elw)
- Mudiadau gwirfoddol cenedlaethol

- Swyddfeydd rhanbarthol sefydliadau cenedlaethol (sy'n rhan o sefydliad ymbarél neu ehangach sy'n darparu cyllid)

Rhaid i brosiectau fodloni un o'r meini prawf canlynol:

- Yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n gysylltiedig neu sy'n berygl o fod yn gysylltiedig â gweithgaredd gangiau.
- Yn cefnogi dioddefwyr gweithgaredd gangiau, a'u teuluoedd, er enghraifft darparu gwasanaethau cyngor a chymorth, neu gynorthwyo tystion yn ystod treialon.
- Yn buddsoddi mewn a chefnogi cyfranogaeth pobl leol mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar asiantaethau gorfodi'r gyfraith wrth fynd i'r afael â gweithgaredd gangiau a gwella ymddiriedaeth yn y gymuned, gan roddi blaenoriaeth i bobl ifanc (16-25) a grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth deg.

Cysylltwch â:
Gun and Knife Crime Team, Home Office, 5th Floor Fry Building,
2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF
Ffôn: 020 7035 1809
connected@homeoffice.gsi.gov.uk
www.connected.gov.uk

Cronfa Meithrin Gallu Cymunedau Ffydd

Mae'r gronfa hon yn rhan o strategaeth y llywodraeth *Gwella Cyfleoedd a Chryfhau Cymdeithas.* Mae'n cefnogi nod y llywodraeth i helpu cymunedau ffydd i hybu dealltwriaeth a deialog, mae'n helpu grwpiau ffydd i feithrin eu gallu ar gyfer gwaith o'r fath, ac yn cefnogi ymgysylltiad gwell rhwng y llywodraeth a grwpiau ffydd wrth lunio a chyflwyno polisïau.

Mae'r gronfa hon hefyd yn cefnogi nod y llywodraeth i helpu gwahanol grwpiau i hybu cymdeithas mwy goddefgar lle gall pob grŵp wynebu eu gwahaniaethau mewn fframwaith o degwch a pharch tuag at ei gilydd.
Gall sefydliadau ymgeisio am un ai grant mawr neu grant bychan ond un cais yn unig y caiff pob sefydliad ei wneud.

Grantiau bychan – meithrin gallu
Gall grwpiau wneud cais am grant bychan i gryfhau gallu eu sefydliad, i chwarae rhan lawnach yn y gymdeithas sifil ac mewn cydlyniant cymunedol, ac i ymgysylltu'n fwy effeithiol gydag awdurdodau cyhoeddus.

Grantiau mawr – meithrin gallu
Ceir tair thema dan y flaenoriaeth meithrin gallu ar gyfer grantiau mawr:

- Arwain a rheoli – gall grwpiau ymgeisio am gyllid i gryfhau eu gallu a'u potensial i gyfrannu at y gymdeithas ehangach.

- Mentora grwpiau ffydd bychan – gall grwpiau ffydd a grwpiau ymbarél neu gynrychioliadol ymgeisio am gyllid i'w galluogi i fentora'n llwyddiannus o leiaf bump o grwpiau ffydd llai i ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda'r gymdeithas ehangach.
- Perthynas gyda llywodraeth leol, ranbarthol neu genedlaethol – gall grwpiau ymgeisio am gyllid i wella eu dealltwriaeth a'u perthynas gyda llywodraeth leol, ranbarthol neu genedlaethol fel eu bod yn fwy abl i weithio gyda'r sector cyhoeddus.

Grantiau bychan a mawr – Gweithgaredd rhyng-grefyddol
Mae grwpiau sy'n gallu cyfrannu at fwy o gydlyniant cymunedol yn gymwys i ymgeisio am un ai grantiau bach neu fawr. Rhaid i bob cais am weithgarwch rhyng-grefyddol gynnwys mwy nag un gymuned ffydd – un ai drwy gyflwyno gwasanaethau a gweithgareddau drwy weithio mewn partneriaeth neu drwy gynnwys cyfranogwyr o fwy nag un gymuned ffydd.

Er nad yw hon yn rhestr gyflawn, ni ellir defnyddio'r nawdd i gynorthwyo gyda:

- Chostau adnewyddu neu waith adeiladu.
- Costau cyffredinol a chostau rhedeg safonol, yr eir iddynt yn rhediad arferol y sefydliad.
- Ceisiadau sy'n gofyn am wariant cyfalaf sy'n uwch na chanran o gyfanswm y costau y gofynnwyd amdanynt – 20 y cant gyda grantiau bach a 10 y cant gyda grantiau mawr.
- Gwaith a wneir am elw, oni nodir yr incwm yn glir yn y gyllideb ac y bwriadwyd i'r incwm wrthbwyso cost y prosiect penodol dan sylw.

Dylai ymgeiswyr gyfeirio at y nodiadau canllaw cyffredinol am esboniadau mwy manwl ac esiamplau o'r mathau o brosiectau y gellid eu hariannu o bosib dan y categorïau uchod.

Cysylltwch â:
Faith Communities and Capacity Building Fund, The Michael Young Centre,
Purbeck Road,
Cambridge, CB2 2PF

Ffôn: 01223 400 341
Ffacs: 01223 400 328
fundingadmin@cdf.org.uk

Cronfa cynghorwyr trais rhywiol annibynnol

Mae'r rhaglen grant hon yn ariannu cost cynghorwyr trais rhywiol annibynnol (ISVAs), sy'n gweithio i roi sylw i ddiogelwch dioddefwyr camdriniaeth rywiol. Bydd ISVAs yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder sifil a throseddol, gwasanaethau iechyd, y sector gwirfoddol a gwasanaethau i dystion a dioddefwyr i ddarparu cymorth i'r cleientiaid hynny sy'n rhan o'r broses cyfiawnder troseddol a'r rheini y gellir sicrhau eu diogelwch drwy ddulliau eraill.

Dyma rai o'r meini prawf allweddol ar gyfer ceisiadau:

- Un elfen hanfodol o rôl ISVA ydy gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Dylid darparu tystiolaeth bod y partneriaid allweddol yn gefnogol i'r cynnig a'u bod yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth.
- Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau sy'n gallu darparu arbenigedd o ran cyflwyno gwasanaethau i ddioddefwyr trais rhywiol.
- Gellir defnyddio'r cyllid un ai i ISVAs sy'n newydd i'r sefydliad neu i ISVAs sydd eisoes yn gweithio yn y sefydliad yn y rôl hon neu mewn rôl debyg.

Cysylltwch â:
Sexual Crime Reduction Team,
Home Office, 4th Floor, Peel Building,
2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF

Ffôn: 020 7035 1854
musaddika.mohmed2@homeoffice.gsi.gov.uk

Cronfa SARCs: darpariaeth i ganolfannau cyfeirio ar gyfer ymosodiadau rhywiol

Mae canolfannau cyfeirio ar gyfer ymosodiadau rhywiol (SARCs) yn lleoliadau un-stop lle gall dioddefwyr ymosodiadau rhywiol gael cwnsela a gofal meddygol, a chael y cyfle i gynorthwyo ymchwiliad yr heddlu i droseddau honedig.
Mae ceisiadau gan bartneriaethau sydd dan arweiniad mudiadau gwirfoddol yn gymwys, cyn belled â bod yr heddlu a'r partneriaid iechyd yn cael eu cynnwys hefyd.

Rhoddir blaenoriaeth am gyllid i'r ardaloedd hynny lle mae angen amlwg am SARC oherwydd nifer neu gyfradd uchel o droseddau rhyw difrifol yn yr ardal.

Cysylltwch â:
Sexual Crime Reduction Team, Home Office, 4th Floor, Peel Building, 2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF

Ffôn: 020 7035 1854
musaddika.mohmed2@homeoffice.gsi.gov.uk

Cronfa i ddioddefwyr: Darpariaeth i ddioddefwyr troseddau rhyw

Mae'r gronfa i ddioddefwyr yn cefnogi datblygiad gwasanaethau cymunedol i ddioddefwyr troseddau rhyw. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi £1.25m ar gyfer blwyddyn ariannol 2007-8 i'r gronfa i ddioddefwyr er mwyn dal i ddatblygu gallu a sefydlogrwydd gwasanaethau cymorth y sector gwirfoddol a chymunedol sy'n bodoli eisoes i ddioddefwyr camdriniaeth a thrais rhywiol.

Mae'r cynllun grant yn agored i bob sefydliad sector gwirfoddol a chymunedol presennol sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn gweithio gyda dioddefwyr camdriniaeth a thrais rhywiol.
Rhoddir blaenoriaeth i:

- Gynnal neu ehangu gwasanaethau neu gynlluniau sy'n bodoli eisoes yn hytrach nag i sefydlu prosiectau newydd.
- Sefydliadau sydd wedi cael grant gan y gronfa i ddioddefwyr o'r blaen ac sydd wedi perfformio'n foddhaol.
- Sefydliadau sy'n profi lefel uchel o brofiad a rhagoriaeth mewn darparu gwasanaethau i ddioddefwyr y math penodol hwn o drosedd.
- Sefydliadau sy'n profi lefel uchel o angen am eu gwasanaeth.

Materion eraill y rhoddir ystyriaeth iddynt:

- Cwmpas daearyddol.
- A fydd y gwasanaeth yn darparu ar gyfer grwpiau cleientiaid penodol (e.e. cleientiaid lleiafrifol ethnig a du, cleientiaid ag anawsterau dysgu, ayb)?
- Cynaladwyedd ariannol, gan gynnwys llifau nawdd amgen.
- Tystiolaeth o waith partneriaeth da.

Rhai mathau o wariant sy'n gymwys:

- Costau rhedeg a chyfalaf.
- Costau craidd anuniongyrchol megis rheolaeth ar gyfer costau cyffredinol y sefydliad hyd at uchafswm o 20 y cant o gyfanswm y gyllideb.
- Costau ar gyfer cynlluniau i helpu i sicrhau sefydlogrwydd ariannol hyd at uchafswm o 10% o gyfanswm y gyllideb.

Cysylltwch â:
Specialist Services Development Team, Victims Fund, Office for Criminal Justice Reform, Victims of Crime Unit,
Home Office, 1st Floor, Fry Building,
2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF
Ffôn: 020 7053 8413
victimsfund@homeoffice.gov.uk

Cronfa Her y Cynfilwyr

Mae Cronfa Her y Cynfilwyr (VCF) yn cefnogi'r Strategaeth i Gyn-filwyr, a luniwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn mewn ymgynghoriad ag adrannau eraill y llywodraeth a sefydliadau cyn-filwrol sy'n cynrychioli cyn-filwyr.

Tri chonglfaen allweddol y strategaeth yw:

- Paratoad ardderchog ar gyfer y trawsnewid i fywyd dinesydd ar ôl gwasanaethu.
- Cymorth o safbwynt darparu cyngor a help gan y Llywodraeth a'r sector gwirfoddol lle bo angen.
- Cydnabyddiaeth o'u cyfraniad i gymdeithas.

Rhaid i geisiadau am gymorth ariannol syrthio i o leiaf un o'r tri phennawd hwn, neu fod yn ymwneud ag ymchwilio i faterion cyn-filwyr neu gyfleu materion cyn-filwyr i gyflwynwyr gwasanaethau neu gyn-filwyr eu hunain.

Bydd penderfyniadau i gefnogi cais am gymorth ariannol gan y VCF yn seiliedig ar y ffactorau canlynol:

- Tystiolaeth bendant bod y cais yn adlewyrchu'r blaenoriaethau polisi sy'n ymwneud â chyn-filwyr ac a nodir yn y strategaeth.
- Tystiolaeth bendant bod y cais, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn rhoi sylw i fwlch 'amlwg' penodol yn y gweithgaredd, y cyfarpar, y cyfleusterau neu'r wybodaeth bresennol.
- Gwerth am arian.
- Canlyniadau wedi'u diffinio'n glir.

Cysylltwch â:
Veterans Policy Unit – Veterans challenge fund, Ministry of Defence Main Building, Floor 7, Zone H, Whitehall, Llundain SW1A 2HB

Ffôn: 020 7218 9787 neu 9225
www.veteransagency@mod.uk

Cynllun grant i Addoldai Rhestredig

Ym Mawrth 2001, cyhoeddodd y Canghellor ei fod yn cyflwyno cynllun grant interim a fyddai'n dychwelyd mewn cymorth grant y gwahaniaeth rhwng 5 y cant a'r swm gwirioneddol a warir ar TAW i wneud gwaith cynnal a chadw a thrwsio cymwys i addoldai rhestredig.

Wedyn, yn 2006 cyhoeddodd y Canghellor y byddai'r cynllun yn parhau hyd at 31 Mawrth 2011. Amcan tymor hir y Llywodraeth yw sicrhau cyfradd TAW is barhaol ar gyfer y gwaith trwsio hwn.

Y cymorth grant gwreiddiol (y gwahaniaeth rhwng 5% a'r swm gwirioneddol o TAW a dalwyd) sy'n weithredol ar gyfer yr holl waith a gwblheir rhwng 1 Ebrill 2001 a 31 Mawrth 2004. Gyda phob gwaith a wnaed ar ôl 1 Ebrill 2004, gellir adhawlio'r swm TAW yn llawn. Gydag anfonebau ar gyfer gwaith a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2004 ac a ddaeth i ben wedi hynny, rhaid i ymgeiswyr ddatgan y ganran a hawlir ar y gyfradd uwch (h.y. er 1 Ebrill 2004) ar un ai'r anfoneb, neu yn yr adran berthnasol ar y ffurflen gais gyfredol.

Mae'r cynllun grant yn berthnasol i bob addoldy rhestredig ym mhob crefydd ledled y DU. Dylai'r adeiladau, fodd bynnag, gael eu defnyddio'n bennaf fel addoldai a rhaid iddynt gael eu defnyddio i addoli ynddynt o leiaf 6 gwaith y flwyddyn.

Mae gwaith cymwys yn cynnwys gwaith sy'n golygu cynnal a chadw neu atgyweirio adeiladwaith yr adeilad (gan gynnwys gwaith i osodion a ffitiadau penodol a ffioedd proffesiynol) a wneir gan gontractwr sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW. Ni ellir ond hawlio'r arian fel ôl-daliadau, ond bydd pob cais dilys a wneir yn ystod oes y cynllun yn cael ei anrhydeddu.

Rhaid i geisiadau fod am isafswm o £1,000. Fodd bynnag, gan nad oes terfyn amser i wneud hawliad tra pery'r cynllun, gellir cyfuno unrhyw elfennau sy'n llai na £1,000 ar eu pen eu hunain gyda hawliadau dilynol os bydd y rhain yn dod i isafswm o £1,000.

I osgoi'r posibilrwydd o ddyblygu taliadau, rhennir gwybodaeth am bob cais gyda chyrff eraill sy'n rhoi grantiau, asiantaethau treftadaeth y gweinyddiaethau datganoledig megis CADW a chyrff dosbarthu perthnasol y Loteri.

Cysylltwch â:
Cynllun Grant Addoldai Rhestredig, Blwch SP 609,
Casnewydd, NP10 8QD
Ffôn: 0845 601 5945
nptcallcentreuk@cslplc.com
www.lpwscheme.org.uk

Rhaglen gyllido cymorth grant Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)

Mae HMRC yn ymdrechu i weinyddu systemau treth a thollau yn deg ac effeithlon ac mae'n ei gwneud yn bosib i unigolion a sefydliadau ddeall a chydymffurfio gyda'u rhwymedigaethau.

Mae HMRC wedi buddsoddi £2m bob blwyddyn dros gyfnod tair blynedd i feithrin ei berthynas gyllido gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a, thrwy hynny, eu cynorthwyo i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol-gynhwysol i'r rheini sy'n anodd eu cyrraedd neu nad ydynt yn ymgysylltu'n uniongyrchol gyda nhw.

Mae'r arian hwn ar gael ar ffurf cymorth grantiau i helpu gyda chostau gweithgareddau sy'n cyfrannu at nodau allweddol HMRC drwy'r canlyniadau a'r blaenoriaethau canlynol:

Canlyniadau strategol:

- Cyflwyno cymorth i gwsmeriaid ar gyfer cynnyrch HMRC, a negeseuon allweddol amdanynt.
- Meithrin gallu'r sector gwirfoddol ehangach i gyflwyno mwy o raglenni gwaith uchelgeisiol tymor hir.
- Cyflwyno cymorth i gwsmeriaid a negeseuon allweddol i grwpiau anodd eu cyrraedd.

Dyma rai blaenoriaethau:

- ffocws ar holl anghenion cwsmeriaid o safbwynt HMRC
- cymorth i gwsmeriaid newydd HMRC
- ffocws ar ddatblygu gallu yn y gymuned
- cyflwyno prosiectau sy'n cael effaith lluosydd
- ffocws ar dargedu grwpiau cwsmeriaid allweddol.

Dyma rai grwpiau cwsmeriaid allweddol:

- lleiafrifoedd ethnig a phobl dduon
- gweithwyr mudol
- pensiynwyr a rhai sy'n nesáu at eu pensiwn
- teuluoedd un rhiant ac incwm isel
- pobl anabl
- grwpiau eraill agored i niwed – e.e. rhifedd a llythrennedd isel, cefndir amddifadedd cymdeithasol neu wledig.

Yn ogystal, dyma rai meini prawf allweddol i sefydliadau sy'n dymuno cael gafael ar gyllid:

- Yn gyfansoddiadol annibynnol.
- Yn annibynnol ar y wladwriaeth gyda mwyafrif o gyrff anstatudol, cynrychiolwyr neu benodedigion ar ei 'fwrdd ymddiriedolwyr' ynghyd a mwyafrif o aelodau anstatudol.
- Yn hunanlywodraethol.
- Ddim yn dosbarthu elw.
- Rhaid iddo elwa o raddau ystyrlon o ddyngarwch.

Fel cymorth grant, mae'r arian yn gyfraniad tuag at gostau yr aiff sefydliadau yn ddilys iddynt gyda gweithgareddau sydd o fewn eu gweithredoedd arferol. Rhaid i'r sefydliadau hyn weithredu ar hyd braich oddi wrth HMRC, ac mae'r arian cymorth grant hwn yn helpu i dalu eu costau o safbwynt y mathau o weithgareddau a amlinellir yn y rhaglen ganllaw. O'r herwydd, gellid defnyddio'r cyllid ar gyfer y costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny.

Nid oes cyllid ar gael ar gyfer costau a gyllidir yn benodol gan grantiau neu gyfraniadau o ffynonellau eraill; nid oes dim cymorth grant ar gael tuag at gost gweithgaredd a gaiff ei ariannu'n llawn ac yn uniongyrchol o fan arall.

Cysylltwch â:
Hazel Kilpatrick, HMRC, Room BP7201, Norham House, Benton Park View, Newcastle upon Tyne, NE98 1ZZ

Ffôn: 0191 244 7416
hazel.kilpatrick@hmrc.gsi.gov.uk
www.hmrc.gov.uk/vcs/funding-streams.htm

Grantiau Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)

Mae NOMS wedi sefydlu cynllun grant i gefnogi prosiectau gan fudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio gyda throseddwyr a'u teuluoedd. Mae cyllid ar gael i brosiectau sy'n cefnogi nodau ac amcanion NOMS, gan gynnwys adsefydlu troseddwyr.

Nid oes dim swm penodol y gellir ymgeisio amdano er bod y rhan fwyaf o'r dyfarniadau rhwng £15k a £60k y flwyddyn. Mae'r cyllid ar gael am hyd at dair blynedd. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ystyrir adnewyddu grant ar ôl tair blynedd.

Mae cyllid ar gael i brosiectau sydd:

- yn amddiffyn y cyhoedd
- yn lleihau aildroseddu
- yn sicrhau bod troseddwyr yn cael eu cosbi'n briodol
- yn sicrhau ymwybyddiaeth troseddwyr o effaith troseddu ar ddioddefwyr a'r cyhoedd
- yn adsefydlu troseddwyr.

Mae adsefydlu troseddwyr yn cynnwys gwaith mewn meysydd a gwmpesir gan y saith llwybr a ddisgrifir yn y Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol a Chenedlaethol i Leihau Aildroseddu:

- lle i fyw
- addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- iechyd meddwl a chorfforol
- cyffuriau ac alcohol
- cyllid, budd-dal a dyled
- plant a theuluoedd troseddwyr
- agweddau, meddwl ac ymddygiad.

Mae gwaith a wnaeth NOMS yn ddiweddar i fapio gwasanaethau wedi canfod y ceir llai o wasanaethau yn y llwybr Plant a Theuluoedd Troseddwyr. Ar draws pob llwybr ceir

prinder gwasanaethau a chymorth i droseddwragedd, troseddwyr du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig.

Mae cyllid ar gael ar gyfer 50 y cant o gostau llawn prosiectau – mae hyn yn cynnwys costau uniongyrchol a chostau cyffredinol cysylltiedig. Gall y cyllid gynnwys pryniannau cyfalaf – fel arfer cyfarpar hanfodol fel pryniannau unwaith ac am byth.

Disgwylir i ymgeiswyr gael 50 y cant o arian cyfatebol o ffynonellau eraill. Fodd bynnag, gellir tapro proffil y grant dros dair blynedd – e.e. 75 y cant o'r costau ym mlwyddyn un, 50 y cant ym mlwyddyn dau a 25 y cant ym mlwyddyn tri.

Mae NOMS yn ystyried y canlynol yn feini prawf allweddol i ymgeiswyr llwyddiannus:

- Rhaid i ymgeiswyr fod yn grŵp gwirfoddol neu gymunedol.
- Rhaid i waith 'peilot' neu waith arloesol a/neu strategol arall gynnwys gwaith monitro, gwerthuso, a lledaenu canlyniadau o fewn y prosiect.

Cysylltwch â:
Elaine Castle, Voluntary Sector and Assisted Prisons Unit, Home Office, Area A,
1st Floor, Fry Building,
2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF

Ffôn: 020 7035 0211
elaine.castle@homeoffice.gsi.gov.uk

Cronfa Her y Gymdeithas Sifil (CSCF)

Er 1997, mae'r Adran Datblygu Rhyngwladol (DFID) wedi canolbwyntio ei hymdrechion datblygu ar Nodau Datblygu Mileniwm y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol i ddileu tlodi. I gynorthwyo'r broses hon mae'r DFID wedi ymgysylltu gydag ystod ehangach o sefydliadau ar draws cymdeithas sifil y DU i'w helpu yn y rôl o weithio gyda phobl dlawd a phobl a gaiff eu cau allan er mwyn gwella eu gallu i drefnu, lleisio'u barn a mynnu gwell gwasanaethau. Yn ogystal â gweithgareddau 'ar sail hawliau' mae'r rhaglen hefyd yn cynorthwyo prosiectau cyflwyno gwasanaethau arloesol sy'n darparu manteision parhaus drwy gynnwys elfennau allweddol, sef:

- grymuso
- eiriolaeth
- meithrin gallu

Cronfa Her y Gymdeithas Sifil (CSCF) yw prif sianel gymorth ganolog DFID i raglenni sefydliadau cymdeithas sifil yn y DU ac fe'i rheolir gan Dîm y Gymdeithas Sifil. Mae'r gymdeithas sifil yn gyfuniad o sawl sefydliad a grŵp gwahanol sydd â gwahanol werthoedd a safbwyntiau. Mae'r rhaglen yn ceisio gweithio gyda:

- Chyrff anllywodraethol.

- Grwpiau aelodaeth.
- Grwpiau seiliedig ar ffydd.
- Undebau llafur.
- Segmentau eraill o'r gymdeithas sifil.

Drwy'r CSCF, gall DFID ariannu prosiectau sydd:

- Yn gwella gallu cymdeithas sifil y De i ymgysylltu â'r broses gwneud penderfyniadau leol.
- Yn gwella gallu cymdeithas sifil y De i ymgysylltu â'r broses gwneud penderfyniadau genedlaethol.
- Yn gwella cysylltiadau rhyngwladol drwy eiriolaeth fyd-eang.
- Yn cyflwyno gwasanaethau mewn modd arloesol.
- Yn cyflwyno gwasanaethau mewn amgylcheddau anodd.

Cysylltwch â:
Y Dirprwy Reolwr Rhaglen sy'n gyfrifol am weinyddu'r Gronfa - Steve Nally
Ffôn: 01355 843 199

Y Gronfa datblygu ymwybyddiaeth (DAF)

Mae'r Adran Datblygu Rhyngwladol (DFID) yn bennaf yn cefnogi gweithgareddau y tu allan i'r DU. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses o ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion datblygu yn y DU, sefydlwyd y *Gronfa datblygu ymwybyddiaeth* i helpu sefydliadau cymdeithas sifil y mae eu gwaith yn cyd-fynd â phapur strategaeth DFID, *Creu Cefnogaeth ar gyfer Datblygu.*
Mae cyfraniadau DFID yn amrywio o £10,000 - £100,000 tuag at gyfanswm costau prosiectau. Mae meini prawf a chanllawiau'r DAF yn eithaf caeth. Yn ei hanfod, mae'r canlynol yn wir:

- Mae unrhyw sefydliad yn y DU yn gymwys cyn belled â'i fod yn rhannu ymrwymiad i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion datblygu.
- Ymysg y rhwystrau penodol rhag datblygu y mae gwybodaeth a dealltwriaeth am y prif sialensiau a'r rhagolygon ar gyfer datblygu, yn enwedig lleihau tlodi.
- Deall rhyngddibyniaeth fyd-eang ac yn arbennig y methiant i leihau tlodi byd-eang.
- Dealltwriaeth a chefnogaeth i ymdrechion rhyngwladol i leihau tlodi a hybu datblygiad.
- Deall y rôl y gall unigolion ei chwarae.

Cysylltwch â:
Adran Cymdeithas Sifil Gwybodaeth, Adran Datblygu Rhyngwladol
Stephen Cassidy
Ffôn: 01355 843 684
Liz Gallacher
Ffôn: 01355 843 335
Ffacs: 01355 843 539

Cronfa datblygu ymwybyddiaeth: cynllun grant bychan

Yn ogystal, ceir cynllun grant bychan a fwriedir ar gyfer sefydliadau neu rwydweithiau sydd â diddordeb mewn gwaith addysg datblygu yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban ac sydd eisiau cynnal prosiectau 1-3 blynedd sy'n ceisio cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion datblygu rhyngwladol; ein rhyngddibyniaeth fyd-eang; o'r angenam ddatblygiad rhyngwladol; ac o'r cynnydd a wnaed a'r cynnydd sy'n bosib.

Yr hyn y gall DFID ei gyfrannu at brosiect fydd lleiafswm grant o £1,000 ac uchafswm grant o £10,000 y flwyddyn.

Cysylltwch â:
Dominic Miles, Cyfanfyd, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3AP
Ffôn: 02920 668999
info@cyfanfyd.org.uk

Y Gronfa Llywodraethu a thryloywder (GTF)

Sefydlwyd y gronfa hon i gynorthwyo gobeithion y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a Datganiad y Mileniwm, yn enwedig o safbwynt gwella llywodraethu, diogelwch, gwasanaethau cyhoeddus a chyfleoedd economaidd mewn gwledydd sy'n datblygu.

Drwy gyfrwng y gronfa bum mlynedd, £100m hon, gall dinasyddion mewn gwledydd sy'n datblygu ddwyn eu llywodraethau i gyfrif, drwy gryfhau'r ystod eang o grwpiau a all eu grymuso a'u cefnogi.

Cronfa gystadleuol yn seiliedig ar y galw yw hon gyda cheisiadau graddfa fawr yn unig. Gallant amrywio rhwng £750,000 a £5m yn seiliedig ar bortffolio o weithgareddau yn hytrach na phrosiectau unigol.

Mae'r canllawiau a'r meini prawf yn mynnu'r canlynol:

- Bod yn rhaid i'r prosiectau yn y portffolio gael eu sefydlu mewn gwledydd sy'n datblygu.
- Un cais yn unig a dderbynnir o bob consortiwm.
- Mae'n agored i ystod eang o sefydliadau nid er elw, gan gynnwys y rheini o'r tu allan i'r DU.
- Rhaid i geisiadau llwyddiannus roi o leiaf 85 y cant o arian GTF i bartneriaid lleol mewn gwledydd sy'n datblygu.
- Rhaid i gynigion roi sylw i faterion llywodraethu a thryloywder drwy weithio drwy gyfrwng amrywiol rwydweithiau a phartneriaethau lleol.

Dyma rai gweithgareddau awgrymedig:

- gwneud gwell defnydd o'r gweithgareddau presennol
- eiriol dros newid

- diwygio'r strwythurau presennol
- datblygu strwythurau newydd
- datblygu dulliau gweithredu arloesol newydd.

Mae'r GTF yn dal i gael ei datblygu ac yn aros i benodi asiant rheoli a fydd yn gwbl gyfrifol am weinyddu'r gronfa a monitro'r arian a roddir.

Cysylltwch â:
gtf@dfid.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.